**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**2/5/2023**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts(Cadeirydd), Llinos Edwards (is-Gadeirydd), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**2497 Sylwadau'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd am yr anrhydedd o gael ei ddewis yn Gadeirydd. Llongyfarchodd Beryl Hughes Griffiths ar ddod yn Nain. Estynnwyd cydymdeimlad i'r Cynghorydd Alan Jones Evans ar ôl iddo golli ei dad, y diweddar cyn-Gynghorydd Caradog Evans.

**2498 Derbyniwyd Ymddiheuriadau** gan Beryl Hughes Griffiths, Alwyn Roberts, ac Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd).

**2499 Datganiadau o fuddiant:** dim

**2500 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cyfarfod 4/4/23.

**2501 Materion y Clerc a'r Cofnodion:**

i. Trafodwyd cael system effeithiol ar gyfer technoleg y Cyngor a chytunwyd i ymgynnull gweithgor yn cynnwys Euros Roberts, Dewi Wyn Jones, Huw Antur, Ann Jones, Carwyn Siddall a'r Clerc gyda'r bwriad o gael system yn ei le erbyn cyfarfod mis Medi.

**ii.** Lloches bws Ty'n Ddôl: diolchwyd i Alwyn M Roberts am ei waith ymchwil a gofynnwyd i'r Grŵp Datblygu edrych ymhellach i'r mater.

**2502 Cyngor Gwynedd:** Nid oedd Adroddiad y tro hwn.

**2503 Is-bwyllgorau:**

i. Grwp Datblygu: Diolchwyd i'r aelodau am eu gwaith ar Adolygiad Drafft Cynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri ac i Huw Antur am lunio'r ymateb.

ii. Mynwentydd – mae gwaith wedi ei wneud ar wal mynwent yr Eglwys a bydd canghennau'r yw yn cael eu tacluso. Gwnaethpwyd un toriad o wair y Fynwent Newydd. Diolchwyd yn arbennig i Huw Pierce Roberts am ei waith gwirfoddoli yn plygu'r gwrych.

iii. Bioamrywiaeth – cytunwyd i brynu a phlannu planhigion pwrpasol wrth fynedfa'r fynwent. Apeliwyd i'r Cynghorwyr a 'u cydnabod osod tybiau o flodau ar hyd y pentref.

iv. Nadolig – heb gyfarfod yn ddiweddar

v. Asedau – mae nifer o faterion i'w trafod gan yr is-bwyllgor cyn cyfarfod Mehefin o'r Cyngor

vi. Cyllid – heb gyfarfod yn ddiweddar

**2504 Materion Ariannol:** Derbyniadau: daeth taliad cyntaf y Praesept i law. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis yn cynnwys

| | |
|---|---|
| Toiledau – Bocsys pres | £67.98 |
| Nwyddau glanhau | £36.42 |

Cytundebau: Cynnal a chadw mynwentydd, glanhau, cyflog

**2505 Cwmni Pum Plwy Penllyn** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a ddywedodd y penodwyd Swyddog Llesiant rhan amser.

**2506 Cynllunio:** cais **NP5/70/71E sef** gwaith peirianyddol ar gyfer adeiladu ysgol farchogaeth newydd, ac estyniad i adeilad amaethyddol presennol i gynnwys eitemau cysylltiedig - Felindre, Llanuwchllyn – mater i Gyngor Cymuned Llangywer.

**2507 Gohebiaeth:**

i. Un Llais Cymru: nodwyd derbyn dyddiadau hyfforddiant.
ii. Un Llais Cymru: derbyniwyd gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg ar-lein ar Fioamrywiaeth.
iii. Un Llais Cymru: derbyniwyd llythyr o gyflwyniad gan Emyr John, Swyddog Cyfathrebu.
iv. Un Llais Cymru: gwahoddwyd cynigion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol (erbyn 23/6/23) a gynhelir ar 30/9/23.
v. Cyngor Gwynedd : trafodwyd yr Holiadur Perfformiad a chytunodd y Clerc i'w gwblhau.
vi. Cornerstone Planning Consultation: cymeradwywyd y llythyr yn manylu cyn gwneud cais cynllunio am osod mast yn y coed yn ardal y Garneddwen.
vii. Cais am gyfraniad at Ystafell aml-synhwyrau yn y Ganolfan Deulu: cytunwyd i gyfrannu £200.
viii. Cais hwyr am gyfraniad at Teulu Gwalia: cytunwyd i gyfrannu fel yn y gorffennol, sef £50.
ix. Parc Cenedlaethol Eryri: rhannwyd gwybodaeth am Gronfa Cymunedol Eryri.

**2508 Materion lleol y Cynghorwyr:** Sylwyd yn ddiweddar ar faw cŵn ar hyd y pentref ac yn arbennig ar Lwybr Cei. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cynghorydd Alan Jones Evans at yr angen i Gyngor Gwynedd osod bin baw cŵn ar derfyn y llwybr.

**2509 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 6/6/23 yn y Neuadd Bentref, yn cynnwys ymweliad gan yr heddlu.

Clerc: Lis Puw: 01678 540654 07896964120 cyngor-llanuwchllyn@outlook.com
Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk